

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	29 MEDI 2026
TEITL	STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LWGRWOBRYWO A GWRTH-LYGREDD CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AM DREFNIADAU ATAL TWYLL AC ATAL LLYGREDD Y CYNGOR, A CHYFLWYNO RHAGLEN WAITH AM Y TAIR BLYNEDD NESAF
AWDUR	LUNED FÔN JONES – RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	MABWYSIADU'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN A DATGAN CEFNOGAETH I'W CYNNWYS

Cyflwyniad

1. Mae “**Risg o Dwyll, Llwgrwobrwyo a/neu Lygredd**” wedi cael ei adnabod fel un o risgiau corfforaethol y Cyngor. Ar hyn o bryd, ystyrir fod hwn yn **risg isel** (sgôr 4) yng nghyd-destun fframwaith llywodraethu'r Cyngor, oherwydd **sgôr o 2 ar gyfer Effaith** (Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer iawn o drigolion), a **sgôr o 2 ar gyfer Tebygolrwydd** (tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno). Credir fod y tebygolrwydd yn isel gan fod rheolaeth fewnol yn gyffredinol gadarn; mae gwaith Archwilio Mewnol yn cadarnhau hyn.
2. Er hyn, mae'n hanfodol parhau'n ymwybodol o'r risg oherwydd bu i'r Cyngor ddioddef o dwyll mawr yn y gorffennol.
3. Gall Cyngor Gwynedd, fel unrhyw gorff cyhoeddus arall sydd yn ymdrin ag arian sylweddol, fod yn destun ymdrechion i dwyllo neu ymdrechion i ddylanwadu ar swyddogion a/neu aelodau mewn modd lwgr. Gall hyn gael ei weithredu, neu ei ymgeisio, gan unigolion o'r tu allan i'r Cyngor, gan staff, gan aelodau neu gyfuniad o'r rhain yn cyd-gynllwynio.
4. Ym mis Tachwedd 2025, sefydlwyd yr e-fodiwl “Ymwybyddiaeth Twyll” ar y Porth e-ddysgu gyda'r e-fodiwl ar gael i staff ac Aelodau. Lansiwyd yr e-fodiwl i gyd-fynd ag “Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll”, sef 16-22 Tachwedd 2025. Noder nad yw'r e-fodiwl hwn yn un o fodiwlau mandadol Cyngor Gwynedd.

Strategaeth

5. Mae Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu yr awdurdod, ac mae ei fabwysiadu, ei hyrwyddo a'i weithredu yn gamau hanfodol i ennyn hyder y cyhoedd am ddiogelwch arian y trethdalwr. Mae'n adlewyrchu penderfyniad y Cyngor i warchod ei hun rhag twyll a llygredd a'r bwriad yw sicrhau safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus.

6. Mae'r Strategaeth yn darparu trosolwg o bolisi'r Cyngor o safbwynt ei agwedd tuag at dwyll a llygredd a'r rhai sydd yn gweithredu, neu'n ceisio gweithredu, twyll neu lygredd yn erbyn Cyngor Gwynedd a'r trethdalwr. Mae wedi'i ddylunio i:
- Egluro'r hyn y mae'r Cyngor yn ei olygu o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
 - Gosod y safonau y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan ei Aelodau Etholedig a'i staff;
 - Hyrwyddo atal twyll;
 - Hyrwyddo darganfod twyll;
 - Dangos sut y bydd y Cyngor yn ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd;
 - Hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll.

Cynllun Ymateb

7. Yn ogystal â'r Strategaeth, mae'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd i'w ddarllen ar y cyd â'r Strategaeth, ac yn gosod allan yr hyn y dylai staff a/neu rheolwyr ei wneud pan maent yn amau fod twyll neu lygredd yn digwydd, a'r camau ymarferol y bydd y Cyngor yn eu dilyn er mwyn mynd i'r afael â'r mater.
8. Mae'r ddogfen yn gosod allan yr hyn sydd angen i'r canlynol ei wneud pan maent yn darganfod neu'n amau twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd:
- Staff
 - Rheolwyr
 - Archwilwyr
9. Mae'r cynllun wedi ei ddatblygu gan roi sylw dyledus ac ystyriaeth i nifer o bolisiâu a gweithdrefnau eraill o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb, gan gynnwys:
- Yr amodau gwaith lleol
 - Polisi Datgelu ("Canu'r Gloch")
 - Polisi Disgyblaeth
 - Rheolau Gweithdrefn Ariannol
 - Siarter Archwilio Mewnol
10. Mae'r Cynllun Ymateb yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn gweithredu er mwyn ymchwilio i honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd, gan gynnwys sut mae hyn yn plethu gyda Polisi Disgyblu yr Awdurdod.
11. Mae cynllun hefyd yn amlinellu sut bydd y Cyngor yn gweithredu, a'r opsiynau sy'n rhaid eu hystyried, pan fydd tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd wedi cael ei gasglu, gan gynnwys disgyblaeth fewnol a/neu erlyniad troseddol neu sifil, neu gyfuniad o'r rhain.

Argymhelliad

- 12 **Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn yr adroddiad yma fel eglurhad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymchwilio ac atal twyll a llygredd o fewn y gyfundrefn a chymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredd.**